# GORLLEWIN AFFRICA AC IS-SAHARA!

## 45MUNUD-I-AWR

## AMCAN DYSGU

- Defnyddio mapiau o'r byd, atlasau a globau i adnabod y Deyrnas Unedig, yn ogystal â'r gwledydd, cyfandiroedd a chefnforoedd sy'n cael eu hastudio yn y cyfnod allweddol yma.
- Defnyddio cyfeiriadau cwmpawd syml (Gogledd, De, Dwyrain a Gorllewin) ac iaith leoliadol a chyfeiriadol [er enghraifft, pell ac agos; chwith a dde], i ddisgrifio lleoliad nodweddion a llwybrau ar fap.
- Lleoli gwledydd y byd, gan ddefnyddio mapiau i ganolbwyntio ar Ewrop (gan gynnwys lleoliad Rwsia) a Gogledd a De America, gan ganolbwyntio ar eu rhanbarthau amgylcheddol, nodweddion allweddol ffisegol a dynol, gwledydd a dinasoedd mawr.
- Deall a chymhwyso egwyddorion diet iach ac amrywiol.



## ADNODDAU

- Cyflwyniad pwynt pwêr ar gyfer y wers.
- Detholiad o puprynnau gwyrdd, coch, melyn ac oren.
- Cyllell a bwrdd torri i dorri y puprynnau i ddarnau bach.

## BRASLUN Y WERS

1. Os yw'n berthnasol, ailadroddwch y wers flaenorol a phwyntiau daearyddol, gan ofyn i'r plant rannu rhywfaint o'r wybodaeth a ddysgwyd ganddynt a lleoli'r ardal ar fap o'r byd.
2. Ble chi'n meddwl mae hwn?
3. Beth ydych chi'n ei wybod yn barod am Orllewin ac Is-Sahara Affrica?
4. Beth yw Sahara? Defnyddiwch iaith leoliadol i esbonio Is-Sahara.
5. Gofynnwch i'r plant leoli gwahanol wledydd yng Ngorllewin ac Is-Sahara Affrica. Edrychwch ar ble mae rhai o'r ffiniau'n llinellau syth ac eglurwch sut, yn ystod y wladychiaeth, y rhannwyd tir, yn aml heb ystyried pobl frodorol na nodweddion daearyddol.
6. Siaradwch â'r plant am y math o fwyd y mae Gorllewin ac Is-Sahara Affrica yn adnabyddus amdano:

*Mae gan Orllewin ac Is-Sahara Affrica hanes hir o wahanol deyrnasoedd a wladwriaethau dinesig. Mae gan lawer o brydau Affricanaidd ddylanwadau o bob cwr o'r byd ac yn aml maent yn cynnwys grawn, cig, llysiau, a sbeisys. Mae'r ardal amrywiol hon yn cynnwys cannoedd o wahanol lwythau ethnig sy'n siarad llawer o ieithoedd gwahanol. Mae bwyd yr ardal hon wedi parhau'n wydn yn wyneb llawer o newid, yn enwedig yn y 300 mlynedd diwethaf.*

*Mae'r angen sylfaenol i deimlo'n llawn ac yn fodlon bob amser wedi gyrru pobl i ddod o hyd i fwyd iach a llawn. Mae pob diwylliant ar y ddaear wedi dod o hyd i'w ffynhonnell leol ei hun o startsh neu garbohydradau. Mae'r rhain yn helpu i gadw pobl i deimlo'n llawnach gan ei bod yn cymryd mwy o amser i'r bwyd fynd i mewn i'r llif gwaed.*

PARHAU

*Mae startsh poblogaidd yn cynnwys gwahanol fathau o rawn, codlysiau a mathau eraill o wreiddlysiau.*

*Yng ngorllewin ac Affrica Is-Sahara mae pobl yn defnyddio gwahanol fathau o lysiau sy'n cynnwys iam, taro, plantain a chasafa.*

### Gweithgaredd

*Mae lliw bwyd yn gallu effeithio beth ni'n meddwl bydd e'n blasu fel.*

1. Gan ddefnyddio'r casgliad o buprynnau coch, gwyrdd, melyn ac oren, torrwch nhw'n ddarnau bach a'u rhoi ar blatiau unigol. Gellir defnyddio hwn fel ymarfer dosbarth cyfan, neu mewn gwaith grŵp bach.
2. Gall y plant flasu ychydig o bob pupur gyda mwgwd a heb fwgwd.
3. Gellir casglu eu hymatebion unigol i hyn trwy fanc geiriau lle gallant ddisgrifio'r blasau a'r gweadau y maent wedi'u profi. Gall hyn wedyn arwain at drafodaethau eraill ynglŷn â sut mae'r ffordd y mae bwyd yn cael ei gyflwyno yn bwysig i sut rydyn ni'n meddwl ein bod ni'n mynd i'w fwynhau.
4. Gall plant hefyd weithio mewn grwpiau i gynnal arolygon a chasglu data ar sut mae plant yn ymateb i liwiau gwahanol pupurau. Gellir cyflwyno hyn ar ffurf siart bar / siart cylch / fformat tabl.

### Llenwi'r wybodaeth o'r wers ar y map

O'r wybodaeth sydd wedi cael ei rannu yn y wers heddiw, cwblhewch y blwch ar fap y byd y plant sy'n berthnasol i Orllewin ac Is-Sahara Affrica.

## BRASLUN Y WERS

Peppers are now grown all around the world. Using the internet, ask the children to research and list all the different names and types of peppers around the world.

## GWEITHGAREDDAU PELLACH / GWAITH CARTREF



AM FWY O ADNODDAU ADDYSG ARBENNIG EWCH I:

EatThemToDefeatThem.com

© Veg Power CIC 2024

GORLLEWIN AFFRICA AC IS-SAHARA

